# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**DYDD LLUN, 2AIL RHAGFYR, 2019**

**(I DDILYN YMLAEN O'R PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL)**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor,**

**Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 22 Tachwedd 2019)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Steve Collings | Annwen Hughes |
| Dafydd Owen | Edgar Wyn Owen |
| Peter Read | Elfed Williams |
| Sedd Wag - Plaid Cymru | Gareth Jones |

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| John Brynmor Hughes | Eryl Jones-Williams |
| Jason Wayne Parry | Angela Russell |

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Gareth Williams

## Aelod Unigol (2)

Y Cynghorydd Roy Owen

Sedd Wag - Aelod Unigol

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 4

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 9fed o Fedi 2019 fel rhai cywir

## 5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU 5 - 7

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd;

20.06.19

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 09.09.19**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Steve Collings, Annwen Hughes, Gareth Jones, Eryl Jones-Williams, Edgar Wyn Owen, Dafydd Owen, Roy Owen, Jason Wayne Parry, Angela Russell, Elfed W. Williams (Cadeirydd) a Gareth Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol – Cynllunio ac Amgylchedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**Eraill a wahoddwyd:** Cynghorydd Gareth Griffiths, Aelod Cabinet Amgylchedd

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd John Brynmor Hughes a Peter Read

Croesawyd y Cynghorydd W Roy Owen fel aelod newydd i'r Pwyllgor Trwyddedu Canolog

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd Mehefin 3ydd 2019 fel rhai cywir.

## 5. COFNODION IS BWYLLGORAU TRWYDDEDU

Derbyniwyd, er gwybodaeth gofnodion yr Is bwyllgor a gynhaliwyd 3.06.19

Adroddodd y Rheolwr Trwyddedu, er gwybodaeth, bod apêl wedi ei gyflwyno gan aelodau o'r cyhoedd yn dilyn penderfyniad caniatáu trwydded Ceilwart Bungalow, North Promenade, Bermo

Dechreuodd y cyfarfod am 10.25am a daeth i ben am 10:35am

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 20.06.19

**Yn bresennol:** **Cynghorwyr** : Elfed Williams (Cadeirydd), Edgar Owen a Jason Wayne Parry

**Swyddogion:** Sïon Huws (Cyfreithiwr), Alun Roberts (Swyddog Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd) a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO - Tŷ Coffi, 23a Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd**

**Ar ran yr eiddo:** Mrs Linda Williams (Ymgeisydd) a Mrs Rachel Williams (Cynrychiolydd yr ymgeisydd a Rheolwr Plas yn Dre, Y Bala)
Mared Llwyd (Swyddog Gorfodaeth Gwarchod Y Cyhoedd)

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer Tŷ Coffi, 23a Stryd Fawr, Y Bala. Gwaned y cais mewn perthynas â chwarae cerddoriaeth byw, cerddoriaeth wedi ei recordio a pherfformiadau o ddawns dan do ac awyr agored; cyflenwi alcohol ar yr eiddo yn unig. Y bwriad yw rhedeg yr eiddo fel siop goffi a chaffi teuluol.

Tynnwyd sylw at fanylion y gweithgareddau trwyddedig a'r oriau arfaethedig yn yr adroddiad. Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu dystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol.

Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ynghyd a'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Nodwyd bod un llythyr o wrthwynebiad wedi ei dderbyn gan Uned Gwarchod y Cyhoedd oherwydd pryderon rheolaeth sŵn a niwsans cyhoeddus. Amlygwyd bod cynnig o gyfaddawd wedi ei dderbyn gan yr ymgeisydd sydd wedi cytuno i beidio cynnal adloniant tu allan i'r eiddo o gwbl ac i gyfyngu'r drwydded i adloniant acwstig yn unig tu mewn i'r eiddo. Cadarnhaodd y swyddog bod hyn yn dderbyniol.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahodd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

- Rhoi cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahodd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

b) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd ei bod yn hapus gyda'r hyn oedd wedi ei gyflwyno.

Ategodd y sylwadau canlynol:

- Ei bod yn fodlon peidio cynnal cerddoriaeth tu allan a gwneud cais am drwydded dros dro petai'r angen yn codi
- Byddai cerddoriaeth acwstig yn unig yn cael ei chwarae tu mewn ac felly yn lleihau aflonyddwch
- Bod Tŷ Coffi a Phlas yn Dre yn rhan o'r un cwmni
- Bod nifer o breswylwyr yn byw yn agos ac uwchben i'r eiddo sydd yn denantiaid i'r cwmni ac felly dim eisiau amharu arnynt drwy greu sŵn
- Bod gwesteion yn aros ym Mhlas yn Dre (sydd drws nesaf i'r eiddo) ac felly dim eisiau i unrhyw swm amharu arnynt hwythau chwaith
- Ei bod yn cytuno i amod cadw drysau a ffenestri ar gau pan fydd cerddoriaeth / adloniant yn chwarae
- Cytuno derbyn nwyddau a chlirio poteli / sbwriel ar adegau priodol

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â niferoedd preswylwyr oedd yn byw uwchben yr eiddo cadarnhawyd bod 6 fflat uwchben yr eiddo gyda 8 person yn byw ynddynt.

c) Ymneilltuodd yr ymgeisydd a'i chynrychiolydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

ch) Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu, yn ogystal â sylwadau llafar cynrychiolydd yr ymgeisydd yn y gwrandawiad. Ystyriwyd hefyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Roedd yr holl ystyriaethau yn cael eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

**PENDERFYNWYD caniatáu y cais**

Cadarnhawyd yr oriau agor ac fe ymgorfforir y materion a restrir yn yr Atodlen Weithredol fel amodau ar y drwydded. Cadarnhawyd hefyd bod miwsig byw yn cael ei gyfyngu i fiwsig acwstig yn unig ac y byddai'r drysau a'r ffenestri yn cael eu cau yn ystod unrhyw adloniant. Cadarnhawyd hefyd mai ystyr y cyfeiriadau at 'amseroedd priodol' yn y cais ym mharagraff M (d) Atal Niwsans Cyhoeddus oedd na fyddai'r gweithgareddau'n digwydd rhwng 22:00 awr a 08:00 awr. Cadarnhaodd y swyddog ar ran Uned Gwarchod y Cyhoedd bod hyn yn dderbyniol.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r gwrthwynebiad a dderbyniwyd gan Uned Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Gwynedd yn sgil pryderon niwsans cyhoeddus. Ystyriwyd bod yr eiddo wedi ei leoli mewn ardal boblog iawn gydag eiddo preswyl uwchben, a phryder o ran diffyg rheolaeth sŵn.

Nid oedd tystiolaeth wedi ei gyflwyno y byddai'r drwydded yn tanseilio'r amcan o atal niwsans cyhoeddus ac o dan yr amgylchiadau, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais yn gydnaws â'r amcanion trwyddedu.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol. Hysbysebwyd o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod o dderbyn y llythyr hwnnw

Dechreuodd y cyfarfod am 10:35am a daeth i ben am 11:00am